



Ein cyf/Our ref qA2081296

Philippa Taylor-Dickson
Isca Legal LLP

philippa@iscallegal.co.uk

19 May 2025

Dear Philippa Taylor-Dickson

**TRANSPORT AND WORKS ACT 1992 – SECTIONS 1 AND 5.
PROPOSED BRECON MOUNTAIN RAILWAY (TRANSFER) ORDER 2025**

1. I refer to the application made by the Vale of Rheidol Railway Limited (“the Applicant”) under sections 1 and 5 of the Transport and Works Act 1992 (“TWA”) to make the Brecon Mountain Railway (Transfer) Order 2025 (“the Order”).
2. The Order enables the transfer of the powers and statutory obligations in the Brecon Mountain Railway (Light Railway) Order 1980 from the Brecon Mountain Railway Company Limited to the Applicant.
3. The relevant legal powers under sections 1 (orders as to railways) and 5 (subject matter of orders as to railways) of the TWA have been transferred to the Welsh Ministers. In this case the powers are being exercised by me as Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning.

Procedural Matters

4. I note consultation was undertaken by the Applicant and a summary of the consultation was provided with the application in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006. The application was also publicised in accordance with those Rules.
5. The application did not result in any objections.

Welsh Ministers’ considerations

6. I have considered the Applicant’s reasons for making this Order and note the Applicant has experience as a railway operator. The application has been subject to consultation and no objections were received. I am satisfied that the Applicant’s proposals for funding the proposed Order are reasonable. Taking account of all these considerations I conclude it is in the public interest to authorise the transfer of the

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

powers and statutory obligations in the Brecon Mountain Railway (Light Railway) Order 1980 from the Brecon Mountain Railway Company Limited to the Applicant.

Formal Decision

7. In exercise of the powers referred to in paragraph 3 above, I allow the application, subject to modifications which do not make substantial changes in the proposals as to require notification to affected persons under section 13(4) of the TWA. This letter is notice of my decision to make the Order.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (“WFG Act”)

8. The Welsh Ministers must, in accordance with the WFG Act, carry out sustainable development. This includes taking all reasonable steps to meet their well-being objectives.
9. I have considered the extent to which granting planning permission meets the Welsh Government’s well-being objectives. Overall the decision would have a positive effect on the objective to “Push towards a million Welsh speakers, and enable our tourism, sports and arts industries to thrive”. The effect of this decision on other objectives is neutral.
10. In reaching my decision on the application, I have taken into account the ways of working set out in section 5(2) of the WFG Act and ‘SPSF1: Core Guidance, Shared Purpose: Shared Future – Statutory Guidance on the WFG Act’.

Looking to the long-term

11. The decision will help to maintain and develop the Brecon Mountain Railway.

Involving people/Collaborating with others

12. Within the framework of a statutory decision-making process, which is governed by prescribed procedures, the application was subject to publicity and consultation, providing the opportunity for stakeholder engagement.

Taking an integrated approach

13. The decision has considered the impacts of the decision on the Welsh Government’s well-being objectives.

Prevention

14. The decision will allow the Applicant to maintain and develop the Brecon Mountain Railway.

Reasonable steps

15. I have considered whether, having regard to the Welsh Ministers’ wellbeing duty, it would be reasonable to take a different decision. I note the alternative decision would be to refuse the application for the Order. This would negatively impact on the objectives to “Push towards a million Welsh speakers, and enable our tourism, sports and arts industries to thrive”. The effect of this alternative decision on the other objectives would be neutral. Consequently, I consider the decision to make the Order is a reasonable step in meeting the Welsh Ministers’ well-being objectives.

Notice of Determination

16. This letter constitutes the Welsh Ministers' notice of their determination to make the Order, with modifications, for the purposes of section 14(1)(a) and section 14(2) of the TWA. You are required to publish a newspaper notice of the determination in accordance with section 14(4) of the TWA.

Challenge to Decision

17. The circumstances in which the Welsh Ministers' decision may be challenged are set out in the Annex to this letter.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The script is cursive and fluid.

Rebecca Evans AS/MS

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

ANNEX

RIGHT TO CHALLENGE ORDERS MADE UNDER THE TWA

Any person who is aggrieved by the making of a TWA Order may challenge its validity, or the validity of any provision in it on the ground that:

- it is not within the powers of the TWA, or
- any requirements imposed by or under the TWA or the Tribunals and Inquiries Act 1992 has not been complied with.

Any such challenge may be made, by application to the High Court, within the period of 42 days from the day on which notice of determination is published in the London Gazette as required by section 14(1)(b) of the TWA. See section 22 of the TWA for further details.

A person who thinks they may have grounds for challenging the decision to make the Order is advised to seek legal advice before taking any action



Ein cyf/Our ref qA2081296

Philippa Taylor-Dickson
Isca Legal LLP

philippa@iscallegal.co.uk

19 o Fai 2025

Annwyl Philippa Taylor-Dickson

**DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992 – ADRANNAU 1 A 5.
GORCHYMYN RHEILFFORDD FYNYDD Y BANNAU (TROSGLWYDDO) 2025
ARFAETHEDIG**

1. Cyfeiriaf at y cais a wnaed gan Vale of Rheidol Railway Limited (“yr Ymgeisydd”) o dan adrannau 1 a 5 Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (“y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd”) i wneud Gorchymyn Rheilffordd Fynydd y Bannau (Trosglwyddo) 2025 (“y Gorchymyn”).
2. Mae'r Gorchymyn yn galluogi trosglwyddo'r pwerau a'r rhwymedigaethau statudol yng Ngorchymyn Rheilffordd Fynydd y Bannau (Rheilffordd Gul) 1980 o Brecon Mountain Railway Company Limited i'r Ymgeisydd.
3. Mae'r pwerau cyfreithiol perthnasol o dan adran 1 (gorchmynion yn ymwneud â rheilffyrdd) ac adran 5 (pwnc gorchmynion yn ymwneud â rheilffyrdd) y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Yn yr achos hwn, mae'r pwerau'n cael eu harfer gennyf i fel Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

Materion Gweithdrefnol

4. Nodaf fod yr Ymgeisydd wedi cynnal ymgynghoriad a bod crynodeb o'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarparu gyda'r cais yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais hefyd yn unol â'r Rheolau hynny.
5. Ni arweiniodd y cais at unrhyw wrthwynebiadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ystyriaethau Gweinidogion Cymru

6. Rwyf wedi ystyried rhesymau'r Ymgeisydd dros wneud y Gorchymyn hwn a nodaf fod ganddo brofiad fel gweithredwr rheilffordd. Mae'r cais wedi bod yn destun ymgynghoriad ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Rwyf yn fodlon bod cynigion yr Ymgeisydd ar gyfer ariannu'r Gorchymyn arfaethedig yn rhesymol. O ystyried hyn i gyd, deuaif i'r casgliad ei bod er budd y cyhoedd i awdurdodi trosglwyddo'r pwerau a'r rhwymedigaethau statudol yng Ngorchymyn Rheilffordd Fynydd y Bannau (Rheilffordd Gul) 1980 o Brecon Mountain Railway Company Limited i'r Ymgeisydd.

Penderfyniad Ffurfiol

7. Wrth arfer y pwerau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 uchod, caniatâf y cais, yn ddarostyngedig i addasiadau nad ydynt yn gwneud y fath newidiadau sylweddol i'r cynigion sy'n golygu bod angen hysbysu unigolion yr effeithir arnynt o dan adran 13(4) y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Mae'r llythyr hwn yn hysbysiad o'm penderfyniad i wneud y Gorchymyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf WFG")

8. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â'r Ddeddf WFG, gynnal datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.
9. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae rhoi caniatâd cynllunio yn bodloni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. At ei gilydd, byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan i "Fwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu". Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.
10. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5(2) y Ddeddf WFG ac 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar y Ddeddf WFG'.

Edrych tuag at yr hirdymor

11. Bydd y penderfyniad yn helpu i gynnal a chadw a datblygu Rheilffordd Fynydd y Bannau.

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

12. O fewn fframwaith proses benderfynu statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Defnyddio ymagwedd integredig

13. Mae'r penderfyniad wedi ystyried ei effeithiau ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Atal

14. Bydd y penderfyniad yn caniatáu i'r Ymgeisydd gynnal a chadw a datblygu Rheilffordd Fynydd y Bannau.

Camau rhesymol

15. Rwyf wedi ystyried p'un a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol, o ystyried dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru. Nodaf mai'r penderfyniad arall fyddai gwrthod y cais am y Gorchymyn. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar yr amcanion i "Fwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu". Byddai effaith y penderfyniad arall hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral. O ganlyniad, ystyriaf fod y penderfyniad i wneud y Gorchymyn yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Hysbysiad o Benderfyniad

16. Mae'r llythyr hwn yn hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchymyn, gydag addasiadau, at ddibenion adran 14(1)(a) ac adran 14(2) y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn papur newydd yn unol ag adran 14(4) y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

Herio'r Penderfyniad

17. Amlinellir yr amgylchiadau pryd y ceir herio penderfyniad Gweinidogion Cymru yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

ATODIAD

YR HAWL I HERIO GORCHMYNION A WNAED O DAN Y DDEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD

Caiff unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd herio ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo, ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion a osodwyd gan neu o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd neu Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992.

Ceir gwneud unrhyw her o'r fath, drwy gyflwyno cais i'r Uchel Lys, o fewn 42 niwrnod o'r dyddiad y cyhoeddir hysbysiad o'r penderfyniad yn y London Gazette, fel sy'n ofynnol gan adran 14(1)(b) y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Gweler adran 22 y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd am ragor o fanylion.

Os bydd rhywun yn credu efallai bod ganddo sail i herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn, fe'i cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau